Cenn@d

TACHWEDD 22 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 143

Cydweithio cydenwadol arloesol ym maes hyfforddiant

Roedd dydd Mawrth, 19 Medi, yn ddiwrnod hanesyddol wrth i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Eglwys Bresbyteraidd gychwyn ar bennod newydd o gydweithio ym maes hyfforddiant.

Galw am drafodaeth i ystyried cydweithio cydenwadol ym maes hyfforddiant

Yn hanesyddol, roedd gan y tri enwad golegau diwinyddol, a phob enwad yn gyfrifol am ei hyfforddiant ei hun. Yn naturiol, roedd rhai gwahaniaethau i'w gweld o ran trefn a chynnwys, ond nid oes amheuaeth nad oedd gorgyffwrdd i'w weld hefyd.

Rhai blynyddoedd yn ôl, estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r tri enwad i gyfarfod i drafod y posibilrwydd o gydweithio ym maes hyfforddiant pan fo hynny'n bosib, a dewiswyd yr Athro Eryl Wynn Davies fel Cadeirydd. Yn naturiol, nid y bwriad yw tanseilio unrhyw hyfforddiant sy'n bodoli eisoes, ond cytuno i gyd-drafod unrhyw gynlluniau hyfforddiant, a chydweithio a chydhyfforddi pan fo hynny'n bosib.

Wrth drafod, teimlwyd y byddai'n braf, yn ychwanegol at yr hyfforddiant mewnol, gallu cynnig cyrsiau fyddai'n rhoi achrediad academaidd i'r rhai fyddai'n dymuno hynny. Nodwyd bod Coleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, drwy eu perthynas â Phrifysgol Caerdydd, eisoes yn cynnig cyrsiau ar gyfer cymwysterau safon uwch, yn cynnwys diploma, a graddau baglor, meistr a doethuriaeth. Cam naturiol felly oedd y byddai'r trafodaethau'n cynnwys cydweithio â Choleg y Bedyddwyr yn ogystal, a thrwy hynny ehangu'r cyfleoedd hyfforddiant i gynnwys y cyrsiau achredig hyn. Yn naturiol, gellir dadlau nad oedd dim rhwystr i unrhyw fyfyriwr fynychu'r coleg beth bynnag, a byddai hynny'n wir. Fodd bynnag, drwy'r berthynas hon, bydd gennym gyswllt clòs â'r staff, cyfle i roi mewnbwn ac awgrymiadau am gynnwys posib rhai modiwlau, a'r cyfle i fod yn rhan o fywyd a chymuned y coleg.

Nodi dechrau'r berthynas

Yn dilyn cyflwyno ffrwyth y drafodaeth i Gyfarfodydd Blynyddol y tri enwad, a'r tri yn gytûn i fwrw ymlaen am gyfnod cychwynnol, nodwyd dechrau'r cydweithio mewn cyfarfod arbennig yn Neuadd Hebron, Dinas Powys, ddydd Mawrth, 19 Medi. Yn ystod y prynhawn, cafodd y tri chynrychiolydd enwadol y cyfle i gyfarfod â staff Coleg y Bedyddwyr i glywed am y cyrsiau a'r modiwlau sydd ar gael gan y coleg, i rannu ychydig am yr hyfforddiant mewnol sydd gan bob enwad, ac i fynegi eu gobeithion gyda'r cynllun newydd, cyffrous hwn.

Yna, yn dilyn swper, cynhaliwyd oedfa i nodi dechrau blwyddyn academaidd y Coleg, gyda'r holl staff a'r myfyrwyr yn bresennol. Arweiniwyd yr oedfa gan gyd-benaethiaid y Coleg,

Y cynrychiolwyr enwadol a ddaeth ynghyd

sef y Parchg Ddr Rosa Hunt a'r Parchg Ddr Ed Kaneen, a thestun llawenydd mawr oedd gweld cynifer o fyfyrwyr ac Ymgeiswyr am y Weinidogaeth o blith y Bedyddwyr, Cymraeg a Saesneg eu hiaith, yn cychwyn eu taith i gymhwyso ar gyfer y Weinidogaeth. Traddodwyd y bregeth gan y Parchg Beti Wyn James yn seiliedig ar Philipiaid 1. Cawsom, drwy'r bregeth, ein harwain i ystyried geiriau agoriadol gweddi Paul, gan seilio'r cyfan ar dri gair, sef braint, cyfranogwyr ac addewid.

Yn dilyn y bregeth, symudwyd ymlaen i nodi'r berthynas newydd gyda'r cynllun cydenwadol. Darllenwyd cymalau o'r memorandwm o ddealltwriaeth cyn estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr yr enwadau i ddod ymlaen i ysgwyd llaw â chyd-benaethiaid y Coleg a chael ein harwain mewn gweddi i geisio bendith Duw ar y cyfan. Yna, cawsom ein harwain i ymuno â'n gilydd o amgylch bwrdd Swper yr Arglwydd.

Beth nesaf?

Ni fydd y cydweithio eciwmenaidd hwn yn tanseilio hyfforddiant mewnol yr enwadau unigol o gwbl. Ond heb os, mae hwn yn gam pwysig ymlaen yn ein gwaith cydenwadol ac, yn fwy na hynny, yn gyfle newydd inni ehangu ac adeiladu gyda'n gilydd wrth geisio hyfforddi gweithwyr ar gyfer gwaith y Deyrnas. Ni wyddom yn iawn yr union gyfeiriad y byddwn yn mynd iddo gan fod newydd-deb y cynllun yn gofyn am hyblygrwydd wrth inni ganfod y ffordd ymlaen. Ond ymunwn â'n gilydd mewn gweddi i geisio bendith Duw ar y cyfan, ac y bydd y cyfan er clod i'w enw.

Carwyn Siddall
Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gweddi dros Ogledd Korea
Tudalen 3

O'r byd a'r betws
Beth sydd mewn enw?
Tudalen 5

Oedfa *Cenn@d* – Paratoi ar gyfer y Nadolig
Tudalen 8

Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhaliwyd y cyfarfodydd eleni ddydd Mercher, 8 Tachwedd, yng Nghapel Pen-y-parc, ger Aberteifi. Y Llywydd am eleni yw Eurfyl Lewis, Calfaria, Login, a gan mai brodor o'r eglwys honno oedd tad y Llywydd, sef y diweddar Iwan Lewis, a fu'n bregethwr cydnabyddedig o fewn y Gymanfa am flynyddoedd, priodol oedd cynnal y cyrddau ym Mhen-y-parc.

Cychwynnwyd y gweithgareddau drwy gynnal y Gynhadledd yn y prynhawn. Wedi camu emyn fe gymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parch. John Treharne, Is-lywydd y Gymanfa, a chroesawyd pawb ar ran Eglwys Pen-y-parc gan Mrs Gwyneth Jones. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldeb anorfod nifer o ffyddloniaid y Gymanfa, ond da oedd cael cynrychiolaeth o nifer o'r eglwysi yn bresennol.

Trafodwyd nifer o faterion perthnasol i'r Gymanfa, gan hefyd gofio am y sefyllfa yn Gaza. Cytunwyd yn unfrydol i anfon datganiad Undeb Bedyddwyr Cymru yn enw'r Gymanfa yn gofyn am gadoediad a rhyddhau'r gwystlon.

Cyflwynodd y Parch. Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, ddiweddariad o'r Undeb cyn i'r Parch. Sian Elin Thomas gyflwyno prosiect newydd, sef Prosiect Esgyn, yn ymwneud â gwaith ieuenctid o fewn yr enwad. Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol tuag at y gwaith ymhlith y bobl ifanc.

Bydd y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghapel Calfaria, Login, ddydd Mawrth, 14 Mai 2024, a gwahoddwyd y cyrddau ar ran aelodau Calfaria gan Mrs Faith Wright.

Y siaradwraig wadd eleni oedd y Parch Beti Wyn James, Caerfyrddin, a ddaeth i roi cyflwyniad ar 'Ddirnad a Datblygu Doniau o fewn ein Heglwysi'. Soniodd fod gan bawb eu rhan yng ngwaith yr eglwys a'r ffordd gellir mynd ati i gael pobl i ysgwyddo'r baich yn y dyddiau hyn. Roedd yn gyflwyniad positif ac i ddilyn cafwyd trafodaeth, â'r Parch Beti Wyn James yn ymhelaethu ar ei phrofiad o weithredu'r elfennau y soniwyd amdanynt ganddi yn ei heglwysi.

Gan ei bod yn Ddydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd ddeuddydd cyn y cyrddau hanner blynyddol cafwyd ychwanegiad i'r rhaglen pan ofynnwyd i bump o'r chwiorydd oedd yn bresennol i gyflwyno rhannau penodol o'r oedfa a baratowyd ar gyfer y Dydd Gweddi, ac roedd hyn yn glo effeithiol i weithgareddau'r prynhawn. Yn dilyn canu'r emyn olaf cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Ddr D. Densil Morgan.

Cafwyd croeso ardderchog gan chwiorydd Pen-y-parc wrth y byrddau a mwynhawyd amser hyfryd yn gwledda a chymdeithasu, gan gwrdd â chyfeillion hen a newydd.

I gloi gweithgareddau'r dydd, cynhaliwyd Oedfa Bregeth o dan lywyddiaeth Eurfyl Lewis. Yn ôl y drefn, cyn-Lywydd y Gymanfa oedd i gymryd at y defosiwn a darllenodd y Parch Mary Davies, Llandeilo, ran o bennod 13 o Efengyl Mathew cyn ein harwain mewn gweddi.

Y Parch. Sian Elin Thomas, Gweinidog Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi, a wahoddwyd i bregethu. Seiliodd ei neges ar y geiriau a ddarllenwyd sy'n sôn am y perl gwerthfawr, a chafwyd cyflwyniad ar y sgrin i gyd-fynd â'r neges.

Derbyniwyd casgliad teilwng yn ystod yr oedfa a bydd y swm o £300 yn cael ei drosglwyddo i Ffrindiau Tenovus Pen-parc, gyda diolch i bawb am eu haelioni.

Yr organyddion yn ystod y dydd oedd Mrs Maureen Davies a Mr Hywel Rees, a diolch i bawb a sicrhaodd lwyddiant y cyfarfodydd. Edrychwn ymlaen at ymweld ag ardal Login yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Rhidian Evans



Gweddi dros Ogledd Korea

Dyma bwyntiau gweddi *Open Doors* a nodiadau cefndirol ar gyfer mis Tachwedd. Y mis hwn, rydym yn canolbwyntio ar ffoaduriaid Gogledd Korea. Os ydych chi'n eu defnyddio mewn gwasanaeth eglwys neu gwrdd gweddi ac nad oes gennych lawer o amser, byddai'r ddau baragraff cyntaf sy'n dilyn o'r nodiadau yn ddigon i arwain pobl i weddïo:

> Ym mis Hydref, anfonodd Tsieina 600 o ffoaduriaid Gogledd Korea, y mae llawer ohonynt yn Gristnogion, yn ôl i Ogledd Korea, lle maent yn debygol o wynebu artaith, carcharu a hyd yn oed farwolaeth.
>
> Mae Open Doors yn rhestru Gogledd Korea fel y man lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth waethaf am eu ffydd. Os cânt eu darganfod gan yr awdurdodau, caiff credinwyr naill ai eu hanfon i wersylloedd llafur fel carcharorion gwleidyddol - lle mae'r amodau'n erchyll - neu eu lladd yn y fan a'r lle, a bydd eu teuluoedd yn rhannu eu tynged hefyd. Nid oes gan Gristnogion unrhyw ryddid o gwbl.

Os oes gennych unrhyw adborth, er enghraifft ar yr hyn sy'n gweithio'n dda neu sut y gallwn ei wella, rhowch wybod i mi trwy e-bost ar jims@opendoorsuk.org.

Anfon cannoedd o ffoaduriaid Gogledd Korea yn ôl o Tsieina i berygl eithafol yng Ngogledd Korea

Ym mis Hydref, anfonodd Tsieina 600 o ffoaduriaid Gogledd Korea, y mae llawer ohonynt yn Gristnogion, yn ôl i Ogledd Korea, lle maent yn debygol o wynebu artaith, carcharu a hyd yn oed farwolaeth.

Mae Open Doors yn rhestru Gogledd Korea fel y man lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth waethaf am eu ffydd. Os cânt eu darganfod gan yr awdurdodau, caiff credinwyr naill ai eu hanfon i wersylloedd llafur fel carcharorion gwleidyddol - lle mae'r amodau'n erchyll - neu eu lladd yn y fan a'r lle, a bydd eu teuluoedd yn rhannu eu tynged hefyd. Nid oes gan Gristnogion unrhyw ryddid o gwbl.

Mae pryder hefyd am ffoaduriaid eraill o Ogledd Korea sy'n dal i fod yn Tsieina. Mae Timothy Cho, Cristion o'r DU a ddihangodd o Ogledd Korea yn ei arddegau, wedi annog Senedd y DU i weithredu.

"Rydw i wedi profi gorfod dychwelyd i'm gwlad fy hun unwaith, ac rwy'n gyfarwydd â'r broses o garcharu, arteithio a chosbi sy'n dilyn," ysgrifennodd Timothy, llefarydd Open Doors, mewn llythyr at Aelodau Seneddol. "Rwy'n eich cymell i annog Llywodraeth y DU i gychwyn deialog gydag awdurdodau Tsieineaidd i hwyluso alltudio'r ffoaduriaid Gogledd Korea sy'n weddill i wledydd trydydd parti fel De Korea neu Ynysoedd Philippines, yn hytrach na'u hanfon yn ôl i Ogledd Korea.

"Hyd yn oed os gallwn achub un person yn unig drwy'r ymdrechion diplomyddol hyn mewn cydweithrediad â Llywodraeth De Korea, byddai'n gyflawniad sylweddol."

I'r rhai a anfonwyd yn ôl i Ogledd Korea ym mis Hydref, fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn llwm. "Mae llawer o'r 600 o ffoaduriaid yn fenywod Cristnogol, ac yn blant, gan gynnwys babanod a anwyd yn ddiweddar," ysgrifennodd Timothy. "Mae'r gosb i unrhyw un sydd wedi bod yn gysylltiedig ag eglwysi neu genhadon Cristnogol tra roedden nhw yn Tsieina yn debygol o fod yn arbennig o ddifrifol, yn wir mae llawer yn debygol o gael eu dienyddio."

Adolygiad o gyfrol farddoniaeth *Ffenestri Gobaith* gan John Emyr. Cyhoeddiadau'r Gair, Awst 2023, £7.99

Mae'n gyfnod o drai ar grefydd gydag eglwysi a chapeli yn cau ym mhob man a Chymru'n prysur droi yn wlad ddigrefydd. Llaciwyd gafael ar y gwerthoedd Cristnogol wrth i gymdeithas droi'n fwyfwy hunanol a materol. Gellid dadlau felly fod mwy o angen y gyfrol amserol hon arnom heddiw nag a fu erioed o'r blaen. Yn naturiol, mae hyn yn loes calon i fab gweinidog ond nid yw'n esgyn i bulpud y pregethwr i geryddu'n difaterwch. Gwell ganddo ein cyfeirio yn dawel at amgenach ffordd o fyw. Mae'n ymwrthod hefyd â'r demtasiwn i ddigalonni. Yn hytrach, wyneba'r heriau gyda ffydd un a gredo.



Ffenestri Gobaith yw'r teitl a cheir llun ar y clawr o ffenestr goffa y ddwy nyrs, Dilwen a Mair Harries, sydd i'w gweld yng nghapel Bethel, Penarth. Mae'r argraffiad hwn o waith Gareth Morgan, yr arlunydd gwydr lliw o Gaerfyrddin, gyda'i gyfoeth o ddelweddau beiblaidd, yn gosod y naws i'r dim. Yna, o fewn y cloriau, cawn gyffes ffydd y bardd a'r Cristion, John Emyr, wrth iddo edrych allan ar y byd sydd ohoni drwy ffenestri lliw y cerddi unigol. Gwneir hynny ar amrywiaeth o fesurau. Ceir yma ddwy awdl goffa, un i'r Athro R. Geraint Gruffydd a'r llall i'r genhades Eluned Mair Davies o Batagonia, yn ogystal â chywyddau, englynion, hir-a-thoddeidiau, emynau, sonedau, caneuon, cerddi penrhydd, dwy filanel, tribannau, phenillion telyn a chwpledi unigol. Mae'r grefft yn lân a'r geiriau'n canu, ac o'u darllen yn uchel daw'n amlwg fod clust yr awdur wedi'i diwnio i fiwsig cystrawennau Beibl William Morgan a rhythmau'r hen emynwyr.

Mae hon yn gyfrol gynnes, gartrefol, sy'n llawn pobol, a theimlwn ein bod yn dod i adnabod yr awdur o fewn y tudalennau. Awen gymdeithasol ydyw sy'n dathlu achlysuron hapus gyda'i ffrindiau ac yn cofio am y rhai a gollwyd yn y dull traddodiadol Cymreig. Un o nodweddion pennaf y gyfrol yw'r Cymreictod naturiol sy'n treiddio drwyddi. Ynddi mae'n cofleidio'r genedl gyfan a'i hamrywiol ardaloedd. Mae gwreiddiau'r bardd yn ddwfn yng Ngwynedd: bu'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, yn fyfyriwr yng Ngholeg Aberystwyth, priododd ferch o Gwmafan a magodd deulu yng Nghaerdydd. Ac mae'r iaith Gymraeg yn goron ar y cyfan. Hi, fel y dywedodd, yw 'mur egwan llys ein cof a llais ein cân'.

Daw hyn â ni at y teulu agos ac unwaith eto ceir cerddi'n dathlu cerrig milltir y daith, o ben-blwydd pump oed Olwen ei wyres, hyd at ganrif ei fam Grace Roberts. Cyflwynir y gyfrol i'r wyrion a'r wyresau – chwech ohonynt – a chlosiwn at y dyn teulu yn y delyneg annwyl 'Tad-cu ac ŵyr', yn y cywydd crefftus i'w fab-yng-nghyfraith, yr arlunydd Huw Aaron, ac yn enwedig yn ei gerddi serch i'w wraig Gwen.

Yn yr amseroedd anodd sydd ohoni, bydd y gyfrol hyfryd hon yn fodd i atgyfnerthu ffydd y gweddill ffyddlon sy'n dal i gadw drysau ein haddoldai ar agor, a hefyd yn gyfrwng i bigo cydwybod y rhai ohonom a gollodd yr arfer o fynychu oedfa ar y Sul. Diolch amdani.

Idris Reynolds, oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Lansio cyfrol *Eglwys y Bobl 2*

Bnawn Llun, Tachwedd 13, lansiwyd ail gyfrol yn y gyfres *Eglwys y Bobl*, sef cyfres o fyfyrdodau yn dilyn y flwyddyn eglwysig, a hynny mewn cyfarfod yn Nant Gwrtheyrn. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i gyfarfod o dan nawdd Esgobaeth Bangor, a hynny yng nghwmni Archesgob Cymru, Andrew John. Mae'r gyfrol yn ffrwyth cydweithio rhwng Cyhoeddiadau'r Gair, Athrofa Padarn Sant a'r Eglwys yng Nghymru. O fewn y gyfrol ddwyieithog ceir 60 o fyfyrdodau gwreiddiol, wedi eu paratoi gan weinidogion a chlerigwyr o Gymru, gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg cyfatebol. Mae'r darlleniadau Beiblaidd y seiliwyd y myfyrdodau arnynt yn dilyn darlleniadau blwyddyn B y Llithiadur. Dyma gyfrol hwylus i'r rhai sy'n cynnal gwasanaethau mewn eglwysi a chapeli, ac yn arbennig o ddefnyddiol i gynulleidfaoedd dwyieithog. Mae'r gyfrol bellach ar gael yn y siopau, pris £13.99.



Andrew John, Aled Davies, Naomi Starkey a Manon Ceridwen James

O'r byd a'r betws
Beth sydd mewn enw?

Mae geiriau o hyd yn ddifyr, er ei bod yn hawdd eu cymysgu, gan greu camddealltwriaeth. Pan ddywed plentyn ei fod yn nosbarth Mr Jones, ai cyfeirio at yr ystafell a wna, neu ddweud ei fod yn y grŵp o ddisgyblion sy'n ffurfio dosbarth Mr Jones? Gallai Mr Jones fynd â'i ddosbarth i'r iard i gael gwers ymarfer corff, neu i unrhyw leoliad arall, ac erys y grŵp yn 'Ddosbarth Mr Jones'. Bydd hyn yn wir am ysgol gyfan, er bod peth amryfusedd ai'r adeilad sy'n fan ymgynnull neu'r disgyblion eu hunain yw'r 'ysgol'. Pan fydd Mrs Davies yn brifathrawes yr ysgol, nid ar yr adeilad ond ar yr athrawon a'r disgyblion gyda'i gilydd y bydd yn bennaeth.

Mae'r un cymysgwch wrth sôn am eglwysi. Y credinwyr sydd wedi ymaelodi ynghyd yw'r eglwys ac iddi nodweddion ac argyhoeddiadau, arferion a thraddodiadau penodol. Yr adeilad lle bydd yr eglwys yn cyfarfod yw'r 'capel', nid yr 'eglwys' fel y cyfryw. Yr eglwys sydd yn galw gweinidog ac yn ethol diaconiaid. Ymaelodi yng nghorff yr eglwys a wneir, nid dod yn rhan o'r adeilad. Er hyn, mae llawer yn sôn am ddod yn aelod o'r capel, a bod Mr Evans yn weinidog capel. Efallai fod y cymysgwch yn digwydd pan oedd angen gwahaniaethu rhwng yr Anglican a'r Anghydffurfiwr, pobl yr eglwys a phobl y capel. Bu cyfnod pan oedd y werin yn anghydffurfwyr a'r uchelwyr yn eglwyswyr.

Digwyddodd mod i'n sgwrsio'n ddiweddar mewn angladd gyda dyn a fu'n gweithio fel athro yng nghanolbarth Lloegr. Roedd ei dad, nad oedd yn mynychu addoliad cyhoeddus, wedi rhannu'r newyddion fod capel arall wedi cau yn ei fro enedigol, a'i fod yntau'n drist o glywed y newyddion. Roedd yn sôn am adeilad wedi ei werthu ac nad oedd addoliad yn digwydd ynddo bellach. Mewn gwirionedd, yr eglwys oedd wedi penderfynu peidio â bod, sef y datgorfforiad swyddogol – sefyllfa ddigon cyfarwydd i ni o bob traddodiad eglwysig, gwaetha'r modd.

Bydd sawl rheswm pam roedd yr adeilad wedi cau, wrth reswm. Gall fod cyflwr yr adeilad wedi gwaethygu a bod tamprwydd neu bydredd coed wedi creu sefyllfa fel nad oedd yn gwneud synnwyr i wario arian, a bod oes yr adeilad wedi gorfod dod i ben. Weithiau bydd sylfeini'r adeilad yn bryder, yn arbennig os yw'r tir yn llithro a'r sylfeini'n symud, neu dwneli gwaith glo o dan y rhan honno o'r ardal wedi peri bod yr adeilad yn anniogel. Yn aml, mae natur y gymdogaeth wedi newid fel nad oes gwaith i gynnal y teuluoedd ifanc, a bod y gymuned wedi heneiddio ac nad oedd yr eglwysi yn medru cynnal a chadw'r adeiladau bregus.

Bydd haneswyr y dyfodol yn debygol o sôn am ein cyfnod ni fel oes cau llawer o addoldai, ac oes cyfuno sawl eglwys, boed hynny oddi mewn i un enwad, neu fel plethu eglwysi sawl enwad. Efallai y byddwn yn sôn am damprwydd a phydredd fel delweddau i ddisgrifio dirywiad eglwysi, a gwaeth fyth i sôn am ddiffyg sylfeini cadarn a ffydd simsan. Nid gwarchod adeiladau bregus na strwythurau enwadol yw her yr eglwysi ond 'byw fel Iesu, dilyn Iesu', a thystio i ddylanwad Iesu yn eu bywydau. Bod yn genhadon brwdfrydig ac nid gwarchodwyr brics a morter yw ein braint. Aelodau eglwys Iesu ydym oll, boed Babydd, boed Anglican, boed Anghydffurfwr. Pan fydd Iesu ynghanol ei bobl, mae'r eglwys yn fythol fyw.

Denzil John

Dathlu Cymorth Cristnogol yn yr Wyddgrug

Nos Lun, Hydref 30ain roedd gwahoddiad i eglwysi cylch yr Wyddgrug gan Llinos Roberts sy'n gweithio i Gymorth Cristnogol yng Ngogledd Cymru, a Nan Powell Davies, Cadeirydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, i gyfarfod arbennig yn Bethesda i werthfawrogi y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn lleol i gefnogi Cymorth Cristnogol dros gyfnod o 25 mlynedd. Cafwyd cyfle i ddiolch ac anrhegu Dora Jones fu'n trefnu yn lleol ar ran y mudiad ers diwedd y 90au; Meinir Evans a ddilynodd ei gŵr Brenig fel trysorydd i'r mudiad yn lleol ers canol y 90au; ac i Huw Jones fu'n gadeirydd yn lleol ar ôl i Aled Lloyd Davies roi'r gorau i'r gwaith rhai blynyddoedd yn ôl. Anfonwyd cofion annwyl at Huw oedd ddim yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd wybod bod swm o dros £134,000 wedi ei gasglu yn lleol yn yr Wyddgrug tuag at Gymorth Cristnogol drwy weithgaredd y pwyllgor ers 1998.

Bu cyfle hefyd i sôn am ymgyrchoedd diweddar a rhai i ddod a hefyd am gynllun Nan wrth iddi hi ddod i ddiwedd ei chyfnod fel cadeirydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, i gynnal 'pererindod heddwch' o Fangor i Enlli ddechrau Rhagfyr. Bydd Llinos Roberts ac Andrew Sully, trefnydd Cymru dros dro, yn

Meinir Evans a Dora Jones yn derbyn tystysgrif gan Llinos o Gymorth Cristnogol sy'n dal tysysgrif Huw Jones oedd yn methu bod yno ar y noson

ymuno gyda hi bryd hynny i godi ymwybyddiaeth am waith Cymorth Cristnogol gyda rhai o gymunedau tlotaf y byd ac sy'n cael eu heffeithio gan ryfel a thrais. Cafwyd cyfraniadau ar y noson tuag at yr ymgyrch yma.

Edrychwn ymlaen hefyd at gynnal Gwylnosau heddwch bob pnawn Sul yn ystod yr Adfent.

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 9
Eglwys mewn caffi
Marc 8:1–8 | 26 Tachwedd

Gweddi

Arglwydd Iesu, cofiwn i ti gerdded y priffyrdd a'r caeau gan godi sgwrs gyda phwy bynnag oedd yn y cylch. Maddau i ni am ffurfioli dy eglwys ar draul colli ei chymdeithas. Agor ein meddyliau o'r newydd i ystyried beth sy'n angenrheidiol ac yn hanfodol i addoliad a chenhadaeth eglwys. Amen.

Darlleniad: Marc 8:1–10

Cyflwyniad

Cawsom ein magu i feddwl am eglwys yng nghyd-destun adeilad a lleoliad, gyda threfn y gwasanaeth yn gyfarwydd a chymharol ffurfiol. Bydd yr hanesion am borthi'r tyrfaoedd yn ein hatgoffa am sawl sefyllfa o farbeciwiau gyda llawer o bobl yn derbyn lluniaeth hwylus. Bydd y syniad o gynnig bwyd yn fodd cyfleus o sôn am ymborth nefol. Sut gallwn ddychmygu eglwys heb adeilad, neu'n cyfarfod mewn adeilad nad yw'n debyg i'r adeiladau sydd gennym ledled gwlad a byd?

Yn Llyfr yr Actau, roedd Paul yn teithio ac yn debygol o chwilio am synagog Iddewig, gan wybod y byddai'n gyfarwydd â ffurf y gwasanaeth yno ac y byddai'r gynulleidfa yn deall iaith crefydd. Rhan o lwyddiant cenhadaeth Paul oedd ei fod yn ddigon cartrefol i godi testun i draethu arno unrhyw bryd ac mewn unrhyw le. Yn Actau 17 roedd wedi gweld ei gyfle wrth yr allor i'r Duw nad oedd pobl yn ei adnabod. Yn ystod ei ymweliad â Philipi bu'n sefyll ar lan yr afon gan y gwyddai fod rhai'n cyfarfod mewn lle felly er mwyn gweddïo. Dyna sut y daeth o hyd i Lydia, y werthwraig porffor.

Pe byddem yn mynd i ddinas ddieithr fel cenhadon heddiw a heb syniad o ddaearyddiaeth y lle, ble byddem yn debygol o ddod o hyd i bobl y gallem fod yn dechrau sgwrs gyda hwy – mewn siop, maes chwarae i blant, caffi neu ar lan afon? Wrth gwrs fod unrhyw beth yn bosibl, ond byddai man hamdden a chwilio am bobl gydag amser i sgwrsio yn gam synhwyrol. Dyna a wnaeth Paul a'i ffrindiau, gan ddod o hyd i Lydia a nifer o wragedd, a dyna ddechrau sefydliad Eglwys Philipi.

Myfyrdod

Un o'r termau diweddar wrth sôn am genhadaeth yr eglwys yw Eglwys ar y Stryd neu Eglwys Gaffi. Mae nifer o eglwysi, fel eglwys All Nations yn Cathays, Caerdydd, sydd â chaffi yn y brif stryd. Ceir enghraifft arall yn Rhiwbeina, ac ar draws Prydain mae nifer helaeth o gynlluniau lle mae'r oedfa mewn capel yn fwy anffurfiol hyd at fod yn ddi-ffurf, neu fod eglwys yn llogi caffi a chynnal oedfa lai ffurfiol yno. Bu arbrofi yn Nhyddewi ac ym Merthyr. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn St Ives yn cynnal oedfa anffurfiol unwaith y mis, gan osod seddi'r addoldy yn debycach i gaffi na rhesi eistedd ffurfiol. Ceir adroddiadau am fentro gwahanol yn Ealing, Llundain, Stoke-on-Trent a Copenhagen yn Denmark sy'n cynnig enghreifftiau o fenter a llwyddiant.

Nodwedd gyson yr ymdrechion hyn yw osgoi ffurfioldeb a threfn, ond yn hytrach pwyso ar ymateb agored wrth sgwrsio am faterion ffydd. Mwy na thebyg, byddai'r mwyafrif ohonom yn ansicr o oedfa mor anffurfiol â hynny, ond beth am ein cyfeillion heb lawer o grefydd nad ydynt yn ymateb i'n cymhellion i ddod i oedfa? A fyddent yn ei gweld yn haws i alw heibio mewn Eglwys Gaffi a phrofi addoliad ystwythach ei drefniadaeth? Mewn mannau felly, bydd yna rywun neu rywrai i arwain y digwyddiad a byddai angen rhywbeth Beiblaidd i'w rannu a cherddoriaeth addoliad, mae'n siŵr. Sonnir yn aml am adeiladu maestrefi newydd yng Nghaerdydd, a phe bai'r fath gorff â Chyngor Eglwysi Caerdydd yn bodoli ac i Gyngor y Ddinas gynnig llain o dir i bwrpas codi adeilad ar gyfer addoliad a chenhadaeth y Cristnogion, beth fyddem am ei weld yno? Faint o gydweithio fyddai rhwng yr enwadau ac ai adeilad capelaidd fyddai ein dewis ni, ynteu rhywbeth cwbl wahanol? Byddem yn falch o glywed eich sylwadau!

Gweddi

Nefol Dad, yn ein myfyrdod heddiw cyffeswn ein bod yn or-barod i ymddiried yn ein trefniadaeth gyfarwydd, heb feddwl bod hyn yn ddieithr ac yn anghyfforddus i eraill. Agor ein meddyliau i ddychmygu addasu ein hunain i gyflawni dy gomisiwn i fynd allan i'r byd a rhannu'r newyddion am Iesu â'r sawl sy'n anwybodus a diddeall o'r Efengyl. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

1. Dim ond yn achlysurol iawn y siaradodd Iesu o fewn muriau adeilad. A oes angen adeilad arnom i fod yn eglwysi?
2. Ai sefydliad neu fudiad yw'r eglwys?
3. Ai ceidwaid adeiladau neu weinyddwyr gobaith yw eglwysi Cymru?
4. Dywedir bod eglwysi yn bod er mwyn eraill. A yw hyn yn wir yn eich achos chi?
5. Pam roedd miloedd yn tyrru ar ôl Iesu, ac onid yw ymarferoldeb Iesu yn dangos maint ei gonsýrn dros les eraill?

S4C ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Sul, 26 Tachwedd, am 7.30yh
Bydd Nia Roberts yn profi lliw a llawenydd Diwali, Gŵyl y Goleuni. Cawn gwmni teulu o Fangor wrth iddyn nhw rannu uchafbwynt mawr y grefydd Hindŵaidd, a chael blas ar ddathliad arbennig yn Neuadd Ogwen, Bethesda.

BBC radio cymru ***Caniadaeth y Cysegr***
Sul, 26 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Hybarch Eileen Davies

Sul, 26 Tachwedd, am 12yp
Oedfa dan arweiniad Lisa Isaac, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

Beth yw'r tric?

Yn achlysurol dwi'n cael fy ngwahodd i arwain sesiynau i eglwysi eraill a gwahanol fudiadau ac enwadau ynglŷn â chenhadaeth a thwf eglwysig oherwydd ein bod wedi gweld ychydig (pwyslais ar ychydig!) o dwf yn yr eglwys yng Nghaernarfon.

Yr hyn fydda i'n ei weld yn aml yw fod llawer o bobl eisiau gwybod beth yw'r gyfrinach? Beth yw'r tric? Beth yw'r arf? Beth yw'r allwedd i ddatgloi stori debyg yn eu cyd-destun hwy? Beth yw'r 'bwled arian' fel petai?

Mae'r agwedd yna o feddwl fod adfywiad a thwf yn rhywbeth y gallwch chi jest ei dynnu allan o het yn fy atgoffa ryw ychydig o stori Simon y Dewin yn Actau 8. Yno mae Simon yn gweld y fendith sydd ar yr apostolion ac yn cynnig eu talu nhw am y gallu i wneud yr un peth. "Rhowch y gallu yma i minnau hefyd, er mwyn i bawb fydda i yn gosod fy nwylo arnyn nhw dderbyn yr Ysbryd Glân," meddai (Actau 8:19).

Ond nid felly mae'n gweithio; does yna ddim un ateb nac un arf i'w gael. Ac yn sicr nid yw'n rhywbeth y gellir ei brynu, fel y mae Pedr yn ateb: "Gad i dy arian bydru gyda ti! Rhag dy gywilydd di am feddwl y gelli di brynu rhodd Duw! Does gen ti ddim rhan yn y gwaith – dydy dy berthynas di gyda Duw ddim yn iawn." (Actau 8:20–21)

Mae rhywun yn clywed llawer y dyddiau yma am strategaethau newydd i'r eglwys, a rhai enwadau yn buddsoddi arian mawr – miliynau o bunnau – yn y mentrau newydd yma. Ac mae hyn i gyd yn iawn yn ei le ac i'w groesawu a'i gefnogi. Ond gwae ni rhag syrthio i'r un fagl â Simon y Dewin a chredu fod bendith yn rhywbeth y gellir ei brynu â'n harian a'n buddsoddiadau.

Mae nifer sylweddol o swyddi eglwysig newydd yn cael eu creu, ond dyw hi ddim yn glir eto sut mae adnabod y rhai sydd wedi eu galw i lenwi'r swyddi yma. Oherwydd, os oes yna un peth y gallaf ei ddweud am y weinidogaeth ar ôl bod ynddi am ddegawd, mae'n rhaid i chi gael galwad. Ar adegau, yr unig beth sydd yn peri i chi ddyfalbarhau yw'r teimlad o alwad. Nid swydd mohoni, ond galwad.

Mae gennym un swydd yn lleol i ni sydd wedi cael ei hysbysebu ers amser, ond does neb â diddordeb mewn ymgeisio amdani, ac mae'n stori gyffredin mewn rhannau eraill o'r wlad. Tybed ydym ni'n mynd o'i chwmpas hi'r ffordd anghywir a bod angen adnabod pobl â galwad a chreu swyddi i'w cynnal nhw yn lle creu swyddi ac yna chwilio am bobl i'w llenwi?

Mae unrhyw adfywiad o fewn yr eglwys yn gorfod dechrau gyda gweddi a gwaith ysbrydol wrth i ni holi yn gyntaf, fel unigolion ac fel eglwys, fel y mae Pedr yn herio Simon y Dewin i holi: a ydy ein perthynas â Duw yn iawn? Yr unig dric, os tric o gwbl, oedd gan y disgyblion cyntaf oedd dysgu gweddïo fel Iesu.

Rhys Llwyd
Caernarfon

Cymdeithasfa'r De (Hydref), Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cynhaliwyd y Gymdeithasfa yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ar 12 Hydref 2023. Gwerthfawrogwyd yn fawr y croeso a gafwyd yno a diolchwyd i Mr Cliff Williams, Cei Bach, am ei arweiniad cadarn a'i holl waith diflino fel Llwydd dros y blynyddoedd diwethaf hyn cyn trosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parchg Richard Brunt, Llundain. Cynhelir Cymdeithasfa'r Gwanwyn 2024 ar 1 Mai yng Nghapel Babell Zion Newydd, Caerfyrddin.

Tony Platt, Ysgrifennydd, Richard Brunt, Llywydd newydd a Cliff WIlliams, Cyn-lywydd

Oedfa *Cenn@d* – Paratoi ar gyfer y Nadolig

Cyflwyniad

Mae tymor yr oedfaon diolchgarwch wedi dod i ben erbyn hyn, ac ry'n ni'n edrych ymlaen at y Nadolig. Mae dydd Gwener Gwallgof (*Black Friday*) wedi pasio, a'r siopau wedi dechrau chwarae carolau a chaneuon Nadolig ers sbel.

Mae'n heglwysi ni wedi paratoi'r dorch Nadoligaidd neu wedi ei thynnu allan o'r bocs Nadolig a'r llwch wedi ei chwythu i ffwrdd unwaith eto.

Mae tymor y Nadolig ar drothwy'r drws a thymor yr Adfent wedi dechrau. Ie, yr Adfent, amser i baratoi at yr ŵyl arbennig yma. Un cwestiwn ry'n ni'n siŵr o'i glywed sawl gwaith o hyn tan 25 Rhagfyr yw: 'Y'ch chi'n barod am y Nadolig?'

I wahanol bobol mae paratoi yn meddwl gwahanol bethau – o brynu coeden i addurno'r cartref. Neu baratoi'r gacen neu archebu'r twrci. Ysgrifennu'r cardiau er mwyn eu postio cyn y dyddiad diwethaf. A'r peryg gyda'r holl baratoi yw colli'r ysbrydol yng nghanol rhialtwch bywyd: colli'r Crist yng nghanol y tinsel.

Sut y'n ni'n paratoi yn ysbrydol at ddyfodiad Tywysog Tangnefedd? Ta beth yw barn y byd am 'Ŵyl y Gaeaf' neu unrhyw deitl arall, mae'r Nadolig bob amser wedi bod yn ŵyl ysbrydol – geni'r Meseia er mwyn pontio rhwng Duw a dyn.

Darllen – Luc 1:46–55

Emyn 435 – 'Fendigaid Fam'

Mae'r angel Gabriel wedi ymweld â Mair, ac wedi dweud wrthi fod Duw wedi ei dewis hi, o holl ferched y byd cyfan, i fod yn fam i'r Meseia hirddisgwyliedig. Roedd Elisabeth hefyd yn feichiog.

Yr ymateb cyntaf ry'n ni'n ei weld yw'r LLAWENYDD yn adnodau 46 a 47. Dyma'r Magnificat, Cân Mair. Ry'n ni'n clywed Mair yn canu i Dduw, gyda'i holl ffocws ar Dduw, a ddim arni hi ei hunan. Roedd Mair yn llawn gorfoledd wrth feddwl am ddyfodiad y Meseia – rhodd Duw yn ei llanw â llawenydd y Nadolig cyntaf.

Yr un ffordd ry'n ni i fod yn llawen wrth baratoi ac wrth i ni feddwl am beth mae Duw wedi'i wneud i ni: 'Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn'. Y'n ni'n paratoi am y Nadolig gyda gwir lawenydd yn ein calonnau?

Ail ymateb Mair yw GOSTYNGEIDDRWYDD yn adnod 48. Mae Mair yn sylweddoli pwy oedd hi yn yr hanes yma: y forwyn ifanc yn cael ei dewis gan Dduw'r greadigaeth i gyd.

'Beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?' (Salm 8:4)

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear'. (Mathew 5:5)

Wrth baratoi am ddyfodiad Crist, roedd Mair yn ostyngedig, yn addfwyn wrth sylweddoli'r fraint o gael ei dewis ar gyfer y barchus arswydus swydd o fagu mab y Dyw Byw. Gallai fod wedi dewis unrhyw un, ond wnaeth e ddim.

Cysegrodd Mair ei bywyd i'r Iesu: 'Roedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.' (Luc 2:19)

Ry'n ni'n paratoi am y Nadolig gyda gostyngeiddrwydd wrth feddwl am y ffordd y gwnaeth y bachgen ddod yn ddyn, a rhoi'r cwbl er ein mwyn ni.

Yna, ry'n ni'n gweld Mair yn llawn GOBAITH yn adnod 55 wrth iddi gofio addewidion Duw. Roedd Mair yn hyddysg yn yr ysgrythur, yn cofio bod Duw wedi addo y byddai'r Meseia yn dod ar ryw amser. Roedd yn gwybod fod Duw yn ffyddlon ac y byddai gobaith Israel yn dod, a hynny o had Abraham a'r addewid a wnaed ganrifoedd yng nghynt. Roedd y gobaith am waredwr y byd yn ei chroth hi, gobaith am y Meseia fyddai'n iachawdwriaeth iddi hi a phawb.

Y'n ni'n llawn gobaith wrth baratoi am y Nadolig? Yng ngeiriau Simeon yn y deml: 'Mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth, a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd: goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel.' (Luc 2:30–32)

Wrth i ni eto eleni baratoi am y Nadolig, wrth i ni ddarllen yr hen, hen hanes, wrth i ni fyfyrio ar y digwyddiadau gwyrthiol yma, gadewch i ni baratoi ar gyfer llawenydd ailddyfodiad y gwaredwr. Gadewch i ni fod yn ostyngedig wrth i ni feddwl am symlrwydd y Nadolig cyntaf: dim lle yn y llety ac eto, y forwyn yn esgor ar oleuni'r byd, y gobaith mawr mewn byd llawn anobaith.

Gweddi

Dduw Dad, wrth i ni gyfrif y dyddiau o nawr tan y Nadolig, helpa ni i gyfrif ein bendithion a sylweddoli cymaint sydd gennym i ddiolch amdano. Gad i ni deimlo o'r newydd y llawenydd di-bendraw wrth i ni fyfyrio ar dy Air a pharatoi ein hunain at yr ymgnawdoliad. Helpa ni i fod yn ostyngedig wrth i ni baratoi. Helpa ni i sylweddoli'r mawredd yn symlrwydd y crud. Gwna ni yn ddisgyblion ac yn apostolion i Ti wrth i ni ddysgu rhannu'r gobaith mawr rwyt ti'n ei gynnig i ni bob amser. Helpa ni i fod fel Mair yn mawrygu'r newyddion da. Helpa ni i fod fel y bugeiliaid wrth i ni awchu am weld y Crist yn ein bywydau. A helpa ni i fod fel y gwŷr doeth wrth i ni ddod â'n pethau gwerthfawr gyda ni i'w cyflwyno ar y Nadolig:

Beth a roddaf iddo,
  llwm a thlawd fy myd?
Pe bawn fugail rhoddwn
  orau'r praidd i gyd;
pe bawn un o'r doethion
  gwnawn fy rhan ddi-goll;
ond pa beth a roddaf?
  Fy mywyd oll. Amen.

Paratown am y Nadolig yr Adfent yma. Paratown i dderbyn, i ddathlu, ac i rannu'r newyddion gorau erioed. Pob bendith, a Nadolig Llawen i chi pan ddaw.

Emyn 443 – 'Daeth eto ŵyl y geni'

Emyr Williams
Gofalaeth y Gwendraeth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru